

YMCHWIL ANSODDOL GYDA DYSGWYR I YMCHWILIO I FARN AM ASESIADAU DI-ARHOLIAD

Cam 1: Crynodeb Gweithredol

Andrew Boyle

Gerallt Hughes

Andy Lewis

Dr Hayley Limmer

Ben Smith

Cydnabyddiaethau

Gwnaethpwyd y gwaith ymchwil hwn yn bosibl gan yr athrawon a gytunodd i gynnal grwpiau ffocws a'r dysgwyr a rannodd eu profiadau gyda ni.

Rydym yn ddiolchgar i hwyluswyr y grwpiau ffocws, Delyth Roberts, Heather Lewis, Michael Morris, Rhys Roberts a Sian Parri a fu'n teithio ledled Cymru i siarad â dysgwyr.

Rheolwyd y prosiect hwn gan Dr Rachael Sperring a Kerry Jones yn Cymwysterau Cymru.

Crynodeb gweithredol

Nodau'r gwaith ymchwil

Yn draddodiadol, mae cymwysterau TGAU wedi asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth drwy gyfuniad o arholiadau ysgrifenedig, arholiadau llafar, asesiadau dan reolaeth, portffolios a gwaith cwrs. Cyfeiria asesu di-arholiad (ADA) at unrhyw fath o asesiad nad yw'n cael ei wneud gan ymgeiswyr ar yr un pryd o dan

amodau rheoledig, ac sy'n rheoli'r asesu mewn tri phwynt, sef gosod y dasg, gwneud y dasg a marcio'r dasg¹.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi drafft *Cwricwlwm i Gymru 2022*. Yn unol â'r fframwaith cwricwlwm newydd hwn, mae'n bosibl y bydd newidiadau'n digwydd o ran cymwysterau a wneir gan bobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru, a allai gynnwys newidiadau i elfennau ADA.

Yn rhan o raglen waith barhaus i ystyried sut gall cymwysterau gefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru, mae Cymwysterau Cymru wedi datblygu prosiect ymchwil sy'n archwilio a ydy'r dull cyfredol o gyflenwi, asesu a chymedroli ADA mewn TGAU yn briodol. Mae gan y prosiect ymchwil hwn bedair ffrwd waith, ac un ohonynt yw'r gwaith ymgysylltu â dysgwyr a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

¹Ofqual (2013). *Review of Controlled Assessment in GCSEs*. Coventry: Ofqual. Ar gael o:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/377903/2013-06-11-review-of-controlled-assessment-in-GCSEs.pdf [Cyrchwyd 23 Awst 2018].

Yn yr adroddiad ymchwil hwn, crynhoir barn am ADA a phrofiadau o ADA o safbwynt y dysgwyr sy'n astudio ar hyn o bryd am y 10 cymhwyster TGAU canlynol: celf a dylunio; cyfrifiadureg; drama; Saesneg iaith; llenyddiaeth Saesneg; daearyddiaeth; addysg gorfforol; gwyddoniaeth ddwyradd; Cymraeg iaith; llenyddiaeth Gymraeg. Ar gyfer pob pwnc, mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â'r llwybrau ymholi canlynol:

- A ydy'r dysgwyr yn ymwybodol o ddiben ADA?
- A ydy'r dysgwyr yn credu bod yr asesiadau ADA yn deg?
- A ydy'r dysgwyr yn teimlo bod ADA yn bwysig? Sut maen nhw'n elwa arno? Sut mae'n effeithio ar eu dysgu?
- Ym marn y dysgwyr, pa fathau o ADA sy'n gweithio'n dda/ddim cystal, a pham?
- A ydy'r adborth a marcio'r ADA yn ddigonol ac yn ddefnyddiol?
- A ydy'r dysgwyr yn gwneud nifer o ymgeisiau at gael graddau ar ADA?
- Faint o amser sy'n cael ei dreulio ar ADA yn yr ystafell ddosbarth neu gartref?
- A ydy'r dysgwyr yn cael cymorth i gwblhau ADA gartref?
- A ydy'r dysgwyr yn teimlo bod ADA yn hydrin ar draws pynciau?

Methodoleg

Cynhaliwyd hanner cant o grwpiau ffocws ledled Cymru yn archwilio barn a phrofiadau tua 400 o ddysgwyr. Ar gyfartaledd, roedd y grwpiau ffocws yn para 30-45 munud, a rhwng chwech a deg o ddysgwyr yn cymryd rhan ym mhob grŵp.

Casglwyd data gan bum hwylusydd dwyieithog. Cynhaliwyd ugain o grwpiau ffocws mewn ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog, a 15 o'r sesiynau hynny yn Gymraeg. O'u rhannu yn ôl consortia addysg rhanbarthol, cynhaliwyd 12 yng nghanol de Cymru, 11 yng ngogledd Cymru, 9 yn ne-ddwyrain Cymru a 18 yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Cafodd pob grŵp ffocws ei recordio a'i drawsgrifio. Cafodd y rheini a gynhaliwyd yn Gymraeg eu cyfieithu wedyn i'r Saesneg. Strwythurwyd y dadansoddiad yn ôl maes pwnc. Cafodd y trawsgrifiadau eu codio yn NVivo yn erbyn y llwybrau ymholi. Cafodd y rhain eu codio ymhellach yn gategorïau mwy mân a ddadansodwyd am nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng y grwpiau ac o fewn y grwpiau.

Canlyniadau

Ar draws trafodaethau'r grwpiau ffocws, bu'r dysgwyr yn sôn yn aml am ddiben ADA o ran y themâu rhyngweithiol canlynol:

- Cynnig dull asesu tecach o'i gymharu â'r arholiad traddodiadol
- Profi cymhwysiad gwybodaeth i'r byd go iawn a datblygu sgiliau i'r byd go iawn
- Cynyddu neu 'fancio' marciau
- Lleddfu straen

Nid y rhain o reidrwydd mo'r prif ddibenion y byddai sefydliad dyfarnu neu Cymwysterau Cymru yn eu nodi, ond maent yn adlewyrchu canfyddiadau'r dysgwyr am eu cymhwyster.

Soniodd y dysgwyr fod yr ADA yn caniatáu iddynt:

- Gael eu hasesu mewn modd sy'n eu rhoi dan lai o bwysau na'r arholiad
- 'Bancio' marciau cyn yr arholiad
- Paratoi ar gyfer yr arholiad ysgrifenedig drwy ddysgu drwy wneud
- Datblygu sgiliau a hyder y gellir eu defnyddio mewn pynciau eraill
- Cynnal dysgu annibynnol a llywio eu dysgu yn rhydd
- Cydweithio

Ar draws yr holl bynciau, mae'r manylebau cyfredol yn argymhell bod y cymhwyster yn caniatáu, lle bo modd, gorgyffwrdd â Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Soniodd y dysgwyr fod yr ADA yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau astudio annibynnol fel creadigrwydd ac arloesedd, effeithiolrwydd personol ac ati, sydd oll yn sgiliau y mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn ceisio eu datblygu.

Roedd y graddau y byddai'r dysgwyr yn cael adborth a marcio ar eu gwaith ADA yn amrywio yn ôl pwnc, yn unol â rheolau a nodwyd yn y manylebau pwnc unigol. Yn ôl Amod Safonol Ychwanegol C.2 o Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol Cymwysterau Cymru ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG, mewn pynciau lle caiff yr asesiad ei farcio gan y ganolfan, mae gofyn i'r canolfannau ddarparu eu marciau i'r dysgwyr cyn i'r gwaith gael ei anfon i ffwrdd i'w gymedroli². Cafwyd rhywfaint o awgrym gan ddysgwyr nad oedd hyn bob amser yn ymddangos fel pe bai yn digwydd, er y dylid nodi y gallai hyn fod oherwydd yr adeg o'r flwyddyn y cynhaliwyd y grwpiau ffocws. Roedd rhai dysgwyr yn awgrymu nad oedd hyn fel petai bob amser yn digwydd. Byddai bron pob dysgwr wedi hoffi cael ei farciau cyn cyfnod yr arholiadau.

Roedd cynllun yr asesiad yn golygu nad oedd yn bosibl neu'n ymarferol gwneud nifer o ymgeisiau yn yr ADA ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau. Yr eithriad i hyn oedd yr asesiadau llafar Saesneg a Chymraeg iaith lle soniodd y dysgwyr yn aml am ailadrodd eu cyflwyniadau, pan oeddent yn teimlo y gellid eu gwella. Mewn addysg gorfforol, soniwyd bod rhai dysgwyr wedi dewis eu perfformiadau gorau wrth gyflwyno tystiolaeth fideo a gasglwyd y tu allan i'r ysgol.

Awgrymodd rhai arfer anghyson o ran amseru pryd y byddai'r dysgwyr yn cael eu marciau ar gyfer ADA. Mae cydweithwyr Cymwysterau Cymru (cyfathrebu personol) yn cadarnhau bod gofyniad cyffredinol bellach, o ran tasgau sy'n cael eu marcio gan y ganolfan mewn TGAU, i'r ysgolion roi eu marc i'r dysgwyr **cyn** iddynt sefyll eu harholiadau eraill yn y pwnc dan sylw. Mae hyn gan fod hawl gan y dysgwyr apelio'r marciau hynny. Fodd bynnag, awgrymodd ymatebwyr ein grwpiau ffocws nad yw'r arfer hwn yn cael ei ddilyn bob tro; gyda dulliau'n gwahaniaethu rhwng pynciau, ysgolion ac (ar adegau) hyd yn oed dosbarthiadau mewn ysgolion.

Soniodd y dysgwyr am weithio ar eu ADA gartref ar gyfer nifer o bynciau, gan gynnwys celf a dylunio, cyfrifiadureg, Saesneg iaith, Cymraeg iaith ac addysg gorfforol. Y prif adroddiad oedd am rai dysgwyr cyfrifiadureg yn paratoi ar gyfer eu ADA gartref ac felly y tu hwnt i oruchwyliaeth uniongyrchol eu hathro.

O ran hydrinedd ADA ar draws pynciau, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod eu baich gwaith yn hydrin. Fodd bynnag, roedd dau eithriad amlwg i hyn. Roedd y rheini a oedd yn astudio celf a dylunio yn debygol o ddweud bod eu baich gwaith ADA yn anodd ei reoli a'i fod yn ymyrryd â'r amser yr oedd ganddynt i'w roi i bynciau eraill. Dywedodd is-grŵp o ddysgwyr fod astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn golygu bod ganddynt ADA o faint anhydrin. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu canfod a oedd y dysgwyr a grybwyllodd faich gwaith ADA hydrin hefyd yn astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau

²Cymwysterau Cymru (2019). *Amodau Cydnabod Safonol Ychwanegol ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG*: Casnewydd: Cymwysterau Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/additional-standard-conditions-of-recognition-for-gcse-gce-qualifications/> [Cyrchwyd 16 Gorffennaf 2019].

Bagloriaeth Cymru am nad oedd yn rhan o raglen y grŵp ffocws. Mewn pwynt sy'n berthnasol i raddau i hydrinedd, roedd y grwpiau ffocws yn y rhan fwyaf o bynciau o'r farn bod gan farciau ADA bwysiad isel yn y radd derfynol mewn perthynas â'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau'r ADA (mynegwyd barn i'r gwrthwyneb hefyd, ond yn llai cyffredin).

Celf a dylunio (100% ADA)

Mae ADA celf a dylunio yn cynnwys portffolio ac aseiniad wedi'i osod yn allanol. Roedd y dysgwyr yn y grwpiau ffocws yn gadarnhaol gan mwyaf am eu tasgau ADA celf a dylunio. Soniodd llawer eu bod yn mwynhau'r rhyddid i lywio eu prosiectau eu hunain ac roeddent o'r farn bod y dull asesu yn gadael iddynt arddangos eu creadigrwydd a'u potensial a hynny o dan lai o bwysau. Roedd natur yr ADA yn mynnu ymdrech barhaus dros amser, a rhai dysgwyr yn ystyried bod hyn wedi'u helpu i ddatblygu eu sgiliau rheoli amser. Roedd y dysgwyr a ddewiswyd hefyd yn sôn bod eu sgiliau dadansoddi ac anodi wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith ADA. Roedd rhai o'r dysgwyr yn treulio cryn amser y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar eu ADA celf a dylunio, ond nid oeddent yn cael cymorth gartref.

Crybwyllodd rhai dysgwyr bryderon am hydrinedd ac effaith eu ADA mewn Celf a Dylunio. Roedd yn ymddangos i'r dadansoddwyr fod mwy o bryderon wedi'u mynegi o ran y pwnc hwn nag eraill, er na wnaethpwyd unrhyw gyfrif ffurfiol o hyn.

Cyfrifiadureg (20% ADA)

Mae dysgwyr cyfrifiadureg yn cael y dasg o raglennu ateb i broblem datblygu meddalwedd. Dywedodd y dysgwyr eu bod yn teimlo bod yr ADA wedi'i gynllunio i asesu eu perfformiad y tu hwnt i gyd-destun arholiad, gan eu paratoi hefyd at yr arholiad. Soniasant ei bod yn well ganddynt yr hyn a oedd, yn eu barn hwy, yn amgylchedd mwy hamddenol lle cynhelir yr ADA (o'i gymharu ag arholiad traddodiadol). I rai dysgwyr, soniwyd bod yr ADA yn darparu sgiliau dysgu a datrys problemau annibynnol, a soniodd rhai dysgwyr eu bod wedi elwa ar 'ddysgu trwy wneud'.

Roedd maint yr adborth a gawsant yn amrywio ar draws ysgolion. Yn yr un modd, roedd rhai dysgwyr yn treulio amser yn paratoi at eu ADA gartref, ac eraill yn teimlo ei bod yn groes i'r rheolau ar gyfer y pwnc penodol hwnnw; gallem gasglu o hynny y gall fod anghysondeb yn y ffordd yr oedd ysgolion yn cyflenwi'r ADA.

Teimlai rhai o'r dysgwyr y dylai fod pwysiad trymach yn perthyn i'r ADA ac roedd rhywfaint o anghysondeb barn ynghylch priodoldeb yr 20 awr o hyd.

Drama (60% ADA)

Rhannir ADA drama yn ddwy dasg berfformio, ac un ohonynt wedi'i chefnogi â phortffolio. Roedd y dysgwyr yn teimlo mai diben yr ADA oedd lleddfu'r straen a'r pwysau y mae arholiadau'n eu gosod arnynt, a oedd yn amlwg yn gysylltiedig â theimlo bod ADA yn "decach" nag arholiadau am ei fod yn rhoi cyfle i ddysgwyr â gwahanol gryfderau, neu ddysgwyr sy'n teimlo dan bwysau yn ystod arholiadau, ddisgleirio.

Teimlai'r dysgwyr yn y grwpiau ffocws drama fod yr ADA yn y pwnc hwn wedi helpu i wella eu hyder, a'u sgiliau mewn perthynas ag actio. Roedd hefyd yn gyfle iddynt arddangos eu hunigoliaeth, eu creadigrwydd a mynegi eu hunain. Roeddent hefyd yn teimlo ei fod yn gyfle iddynt ymarfer sgiliau cyfathrebu, sy'n berthnasol i'r byd go iawn.

Soniodd rhai dysgwyr am ymarfer eu llinellau gartref gydag aelodau o'r teulu, ond prin oedd mathau eraill o gymorth allanol. Anaml y soniodd y dysgwyr am gael eu marciau am yr ADA, ond roeddent hefyd yn

gadarnhaol iawn am yr adborth ansoddol a gawsant am eu perfformiadau, a oedd yn eu galluogi i wella yn y dyfodol.

O ran gwelliannau posibl, ni chodwyd unrhyw themâu cyffredinol gan bron bob grŵp ffocws, fel y digwyddodd mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, nododd rhai dysgwyr y gallai dymeg grŵp fod yn her, yn yr ystyr fod rhaid weithiau iddynt “lusgo” aelodau eraill o’r grŵp yn eu blaenau yr oedd yr athro neu athrawes wedi eu paru â hwy. Dywedodd eraill eu bod yn teimlo iddynt dreulio gormod o amser ar y dasg gyntaf, gan arwain at deimlad o ddiflastod, a hynny ar draul yr ail dasg a’r arholiad. Teimlai’r un dysgwyr hyn y dylai’r ADA fod yn werth canran uwch o’r radd gyffredinol.

Saesneg iaith (20% ADA)

Teimlai’r dysgwyr fod yr ADA Saesneg iaith (cyflwyniad ar sail ymchwil unigol a thrafodaeth grŵp) yn helpu i fagu hyder a gwella sgiliau cyfathrebu llafar, sy’n werthfawr mewn “bywyd go iawn” ac nad yw arholiadau ysgrifenedig yn galluogi’r dysgwyr i’w datblygu. Roedd hefyd yn gyfle i weithio’n fwy annibynnol nag yr oeddent wedi arfer â gwneud. Teimlai’r dysgwyr mai bwriad yr ADA oedd eu galluogi i ‘fancio’ rhai marciau cyn yr arholiadau, a lleihau’r straen a deimlent yn aml yn ystod mathau eraill o asesu.

Soniodd y rhan fwyaf o’r dysgwyr fod eu teuluoedd yn gwrando arnynt yn ymarfer eu cyflwyniadau, ond na fyddent yn cael unrhyw gymorth gartref fel arall. Gwnaeth bron pob dysgwr nifer o ymgeisiau mewn rhyw ffurf ar y dasg unigol o leiaf, boed hynny’n gyflwyniadau ymarfer neu’n ail ymgeisiau penodol, ond nid yw’n glir a gafodd y rhain eu cyflwyno’n ffurfiol i’r sefydliad dyfarnu.

Roedd y prif bryder ymhlith y dysgwyr yn berthynol i ddiffyg cyfrwng mewn rhai agweddau ar yr ADA. Ar gyfer y dasg unigol, roedd hyn yn berthynol iddynt yn teimlo ychydig wedi’u mygu gan ddewis cul o bynciau, nad oeddent efallai o ddiddordeb mawr iddynt, ac ar gyfer y dasg grŵp, fe allent gael eu rhoi mewn grŵp lle nad oedd y dysgwyr eraill yn gwneud eu cyfran o’r gwaith, neu lle byddent yn siarad ar draws eraill, gan gyfyngu ar eu cyfleoedd i ddangos eu sgiliau a’u gwybodaeth. Teimlent hefyd nad oedd yr ymdrech a gyfrannai at yr ADA yn cyfateb i’r ganran o’r radd yr oedd yn cyfrannu ati, ac awgrymwyd y dylai fod yn werth mwy, neu y dylid treulio llai o amser arno er mwyn peidio â “gwastraffu” amser paratoi at arholiad.

Llenyddiaeth Saesneg (25% ADA)

Teimlai’r dysgwyr fod yr ADA Llenyddiaeth Saesneg (dau aseiniad ysgrifenedig yn gysylltiedig â themâu a thestunau) yn asesiad cyfannol a oedd yn gyfle iddynt ddatblygu ac arddangos amrywiaeth o sgiliau. Teimlent hefyd ei fod yn asesiad nad oedd yn rhoi gormodedd o bwysau arnynt, a oedd yn fwy dilys nag arholiadau, lle nad oedd dysgwyr a oedd yn dueddol o deimlo dan straen yn debygol o berfformio cystal ag y gallent mewn sefyllfaoedd eraill. Dywedasant fod y profiad o wneud yr ADA yn ddull paratoi ardderchog ar gyfer yr arholiad, am mai ysgrifennu traethawd hir i bob pwrpas yw ei ofyniad.

Y prif fater a godwyd gan y dysgwyr o ran ADA oedd eu bod yn teimlo bod yr amser a dreulir arno’n anghymesur â’r ganran yr oedd yn ei chyfrannu at eu gradd. Amlygwyd ganddynt hefyd y gallai’r arfer fod yn anghyson rhwng dosbarthiadau ac ysgolion, o ran yr adborth a roir a’r gwaith paratoi a wnaed ar gyfer yr aseiniadau, a bod hyn yn gallu esgor ar annhegwch.

Daearyddiaeth (20% ADA)

Mae ADA daearyddiaeth yn seiliedig ar gasglu data a chreu portffolio o waith maes sy’n hysbysu adroddiad seiliedig ar dystiolaeth. Credai’r dysgwyr fod eu ADA daearyddiaeth yn cynnig dull asesu tecach o’i gymharu â’r arholiad traddodiadol a oedd yn annheg yn eu barn hwy. Roeddent yn teimlo hefyd mai diben yr ADA

oedd gwella eu gradd yn berthynol i'r hyn y byddent yn ei gyflawni pe byddai'r asesu'n gwbl seiliedig ar arholiad. Roedd rhai dysgwyr yn gwerthfawrogi y gallent baratoi ar gyfer cydran ysgrifenedig yr ADA ac roedd y dysgwyr yn yr holl grwpiau ffocws yn amlygu bod llai o bwysau arnynt wrth wneud ADA daearyddiaeth nag arholiad.

Credai'r dysgwyr fod y cyfle i gymhwyso'r hyn a ddysgant yn yr ystafell ddosbarth i'r byd go iawn yn un o fanteision y dull asesu. Roeddent hefyd o'r farn ei fod yn gyfle iddynt ddatblygu a defnyddio gwahanol sgiliau i'r rheini sy'n ofynnol gan yr arholiad traddodiadol.

Addysg gorfforol (50% ADA)

Mae ADA addysg gorfforol yn cynnwys tri gweithgaredd chwaraeon, yn ogystal â datblygu rhaglen ffitrwydd personol. Roedd y dysgwyr o'r farn mai diben yr ADA addysg gorfforol oedd asesu gallu ymarferol mewn chwaraeon nad ellid ei asesu mewn arholiad ysgrifenedig yn debyg i'r ffordd yr oedd rhai dysgwyr celf a dylunio yn ystyried nad oedd creadigrwydd yn addas i'w fesur mewn arholiad. Credwyd hefyd ei fod wedi'i gynllunio i fod yn deg i unigolion sy'n tanberfformio mewn arholiadau, a allai arddangos eu sgiliau mewn gwahanol gyd-destun.

Soniodd llawer o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau'r ADA addysg gorfforol, er bod rhai dysgwyr yn llai hapus â'r cynllun ffitrwydd personol. Roeddent yn gwerthfawrogi'r rhyddid i ddewis y chwaraeon ar gyfer eu hasesiad. Roedd rhai'n awgrymu bod yr ADA yn eu rhoi o dan lai o bwysau na'r arholiad, a'i fod yn gyfle i 'fancio' marciau.

Crybwyllwyd ychydig o arweiniad gan athrawon ar yr ADA ar lefel unigol a dosbarth; er enghraifft, mewn un ysgol, bu'r dysgwyr Blwyddyn 10 yn cymryd rhan yn ADA Blwyddyn 11 yn chwaraewyr gwrthwynebol i roi blas iddynt ar eu ADA eu hunain. Oherwydd gellid cyflwyno fideos o berfformiadau y tu allan i'r ysgol yn dystiolaeth, er enghraifft mewn dosbarth crefft ymladd, roedd rhywfaint o sgeptigaeth fod dysgwyr a oedd yn dewis pynciau y tu allan i'r ysgol yn cael nifer o ymgeisiau at y dasg ADA ac yna'n dewis eu perfformiad gorau i'w gyflwyno. Teimlwyd bod hyn efallai'n rhoi mantais iddynt dros y rheini a gâi un cyfle yn yr ysgol. Yn unol â llawer o'r pynciau eraill, teimlai rhai dysgwyr nad oedd y gymhareb ymdrech a gwobr yn gyson.

Gwyddoniaeth ddwyradd (10% ADA)

Roedd y dysgwyr yn gadarnhaol gan mwyaf am eu ADA gwyddoniaeth ddwyradd lle gofynnir iddynt weithio mewn grwpiau i ymarfer dull arbrol ac yna'n unigol i ddadansoddi a gwerthuso'r canlyniadau (gwneir hyn ar ddau achlysur). Roeddent o'r farn ei fod yn cynnig iddynt ddull asesu tecach a oedd yn addas i'r rheini nad yw arholiadau'n gweddu cystal iddynt. Roeddent hefyd yn credu bod yr ADA yn ymarferol i asesu gwahanol sgiliau, ac yn gyfle iddynt hybu eu graddau cyffredinol.

Dywedodd llawer o ddysgwyr ei fod yn ddifyr ac yn fwynhad, gan werthfawrogi'r cyfuniad o waith grŵp a dysgu annibynnol yn y gwaith ymarferol, a oedd yn digwydd o dan lai o bwysau, yn eu barn hwy. Bu'r dysgwyr yn myfyrio y gallai'r gweithgareddau ymarferol yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt eu cynorthwyo i gofio gwybodaeth yn eu harholiad gwyddoniaeth.

Roedd rhai ysgolion yn rhoi arweiniad cyn yr ADA ond ni ddigwyddai hyn bob amser, ac roedd anghysondeb yn null cyflenwi'r ADA gan ysgolion. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau am ddysgwyr yn ymgeisio nifer o weithiau i wella eu gradd, ac ychydig iawn o awgrymiadau a wnaeth y dysgwyr am sut y gellid gwella'r ADA gwyddoniaeth ddwyradd.

Cymraeg iaith (30% ADA)

Soniodd y dysgwyr fod ADA Cymraeg iaith (cyflwyniad ar sail ymchwil unigol a thrafodaeth grŵp) yn eu helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac iaith a magu eu hyder. Amlygwyd ganddynt hefyd fod hwn yn fodd asesu a oedd yn achosi llawer llai o straen, gan eu galluogi i ‘fancio’ rhai marciau cyn yr arholiad, a oedd yn helpu i leddfu’r pwysau arnynt. Ystyriwyd hefyd fod yr ADA yn fodd da o baratoi at yr arholiad, o ran dysgu am gynlluniau marcio a’r hyn a ddisgwylir ganddynt. Yn olaf, soniasant fod yr ADA wedi’u helpu i ddatblygu sgiliau dadansoddi, a phrofiad o gydweithio.

Roedd mwyafrif y dysgwyr wedi ymarfer eu ADA gartref, a llawer wedi gwneud hynny i gynulleidfa o rieni neu aelodau eraill o’r teulu. Roedd ymgeisio nifer o weithiau yn llai cyffredin, a gellid dehongli bod hyn yn arfer a argymhellir yn y fanyleb. Soniodd y dysgwyr am arfer anghyson o ran cael eu marciau ADA, gyda gwahaniaethau rhwng dosbarthiadau a rhwng ysgolion.

Y prif welliant a awgrymwyd gan y dysgwyr oedd rhoi mwy o amser (ac adnoddau eraill) i’r ADA yn yr ysgol, am eu bod yn teimlo bod llawer ganddynt i’w wneud gartref. Roedd hefyd ychydig o ddryswch am reolau a phynciau, gyda thasgau ADA Cymraeg iaith a Saesneg iaith o bosibl ar bynciau tebyg iawn ond un cyflwyniad yn gwahardd cynnwys barn a’r drafodaeth grŵp arall yn annog cynnwys barn.

Llenyddiaeth Gymraeg (25% ADA, 25% arholiad llafar)

Teimlai’r dysgwyr mai prif ddiben yr ADA llenyddiaeth Gymraeg (dau aseiniad ysgrifenedig ac un llafar) oedd lleddfu’r pwysau a oedd arnynt, a chredwyd felly fod ADA yn fath mwy dilys o asesu nag arholiadau. Roeddent yn teimlo bod ADA yn helpu i wella eu hyder i’r arholiad, a hynny’n bennaf am ei fod yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt o ran cael rhai “marciau yn y banc”. Yn fwy prin, nodwyd bod yr ADA yn eu helpu i ddatblygu sgiliau a thechnegau na fyddai ganddynt efallai fel arall, fel sgiliau dadansoddi³.

Roedd fel petai’n brin cael cymorth gartref i’r ADA hwn, ac felly cael nifer o ymgeisiau. Fodd bynnag, roedd ymarferion neu ddrafftiau o’r asesiad fel petaent yn gyffredin, yn amrywio o ran tebygrwydd i’r dasg ADA ei hun. Dywedodd rhai dysgwyr eu bod wedi gwneud yr un dasg yn yr ymarfer ag a wnaethant yn yr asesiad go iawn a gafodd ei farcio, a dywedodd eraill eu bod wedi cwblhau ymgeisiau ymarfer gyda phwnc tebyg ond nid yr un pwnc â’u hasesiad terfynol. Yn aml, dywedodd y dysgwyr nad oeddent eto wedi cael eu marciau am yr ADA, gyda’r arfer yn amrywio rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion. Er bod adborth ansoddol yn gyffredin wrth nesáu at yr ADA, roedd hefyd yn amlwg fod hwn yn brin ar ôl ei gwblhau - a hynny fel petai am fod y ffocws yn symud yn gyflym at yr ADA nesaf neu’r arholiadau.

Roedd rhywfaint o wahaniaeth barn ymhlith y dysgwyr ynghylch a ddylid dyrannu mwy neu lai o amser i’r ADA, ac awgrymwyd y gallai hyn fod oherwydd bod eisiau mwy o amser ar y dasg ei hun, ond llai ar yr ymarfer ar ei chyfer. Roedd hefyd dryswch ynghylch gofynion yr asesiad, oherwydd gwahaniaethau canfyddedig rhwng cynlluniau marcio’r ADA a’r arholiad (a chynlluniau marcio pynciau eraill).

³ Ni archwiliwyd sgiliau trosglwyddadwy yn benodol yn rhaglen y grwpiau ffocws. Roedd y rhaglen yn lled-strwythuredig ond, oherwydd cyfyngiadau amser, nid yw’n bosibl honni bod pwnc sgiliau trosglwyddadwy wedi’i archwilio’n llwyr a gallai sgiliau eraill nas archwiliwyd fod heb eu dogfennu.



Unit 109 Albert Mill
10 Hulme Hall Road
Castlefield
Manchester
M15 4LY

www.alphaplus.co.uk
john.winkley@alphaplus.co.uk

+44 (0) 161 249 9249

